

Chris Humphrey
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Dinas Casnewydd
Canolfan Ddinesig
Heol Godfrey
Casnewydd
NP20 4UR

Dyddiad: 03 Awst 2020

Annwyl Chris Humphrey,

Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Berfformiad Awdurdodau Lleol Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion
- nodi ein blaenraglen waith

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Dinas Casnewydd wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod nad oedd modd i ni gwblhau'r cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol o ganlyniad i'r amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Fodd bynnag, credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy'n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaol.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
☎ 0872 437 7303
✉ CIW@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL13 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'n dull cynyddol gydweithredol a seiliedig ar gryfderau o hybu gwelliant.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys:

- gweithgareddau â ffocws (gwasanaethau oedolion), 6 a 12 Awst 2019
- gweithgareddau â ffocws (gwasanaethau plant), 7 Awst 2019
- cyfarfod ymarfer a pherfformiad (gwasanaethau oedolion), 8 Awst 2019
- cyfarfod ymarfer a pherfformiad (gwasanaethau plant), 8 Awst 2019
- arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant (ACDAP/JICPA), Rhagfyr 2019
- cyfarfod ymarfer a pherfformiad (gwasanaethau oedolion), 27 Ionawr 2019
- cyfarfod ymarfer a pherfformiad (gwasanaethau plant), 4 Chwefror 2019

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â chi wrth i'r holl weithgareddau a restrir uchod fynd rhagddynt, ac felly mae cynnwys ein llythyr perfformiad blynyddol yn adlewyrchiad cywir o'n canfyddiadau parhaus a rennir â chi yn gyson.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014

Llesiant

Ar draws gweithgarwch arolygu a gwerthuso AGC, dywedodd y staff mewn gwasanaethau plant ac oedolion wrthym fod diwylliant cefnogol ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd y staff fod y rheolwyr a'r uwch-reolwyr yn cefnogi diwylliant gwaith iach, gyda chefnogaeth gadarn o fewn timau ac ar draws disgyblaethau gwahanol. Roeddent hefyd yn gadarnhaol am gyfleoedd hyfforddi. Grŵp a sefydlwyd yn gymharol ddiweddar yw'r grŵp uwch-reolwyr gwasanaethau plant, ond mae'n gydlynol ac yn weladwy ym mhob rhan o'r gweithlu. Yn ystod y ACDAP, gwelsom fod uwch-reolwyr gwasanaethau plant yn cyfathrebu'n effeithiol â'u staff. Roedd diwylliant cefnogol ac agored nad yw'n rhoi bai ar neb, a osodir gan bennaeth y gwasanaeth. Mae hyn yn golygu bod ymarferwyr yn teimlo'n 'ddiogel' wrth rannu penderfyniadau risg.

Mae pennaeth presennol gwasanaethau oedolion wedi bod yn gweithredu fel cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol statudol ers mis Tachwedd 2019. Mae hyn wedi'i ymestyn o ystyried yr amgylchiadau presennol o ran argyfwng y coronafeirws. Mae lefel staffio yng Nghyngor Dinas Casnewydd yn rhesymol ond mae rhai pryderon mewn perthynas â recriwtio a'r ffaith mai ychydig iawn o ddi-ddordeb a ddangosir, gan fod nifer y ceisiadau yn isel. Mae recriwtio ar gyfer gofal cartref yn parhau i fod yn her. Mae dull yr awdurdod lleol o recriwtio Gweithwyr Iechyd Meddwl Proffesiynol Cymeradwy (AMHP) yn dda, gyda tri neu bedwar aelod o staff yn cael eu cefnogi bob blwyddyn i gyflawni'r cymhwyster, ond gellir colli'r staff hynny gan fod cryn alw am y rôl.

Roedd gweithgareddau â ffocws AGC ar gyfer pobl hŷn (dros 65 oed) yn canolbwyntio ar bobl a oedd wedi aros gartref o ganlyniad i ymyrraeth gan wasanaethau integredig a chanddynt gynllun gofal a chymorth. At ei gilydd, gwelsom fod hybu annibyniaeth a chanlyniadau personol yn cael eu hystyried wrth gynllunio a darparu gwasanaeth o fewn yr awdurdod lleol. Mae'r gwasanaeth yn ymateb i amgylchiadau newidiol drwy ddefnyddio amrywiaeth o wasanaethau i ddiogelu llesiant y bobl. Nodwyd gennym fod asesiad o

anghenion y bobl yn faes y mae angen ei ddatblygu ymhellach; byddai cynnal dadansoddiad mwy trylwyr o gryfderau, rhwystrau a risgiau yn gwella hyn.

Roedd gwaith gweithgarwch ffocws AGC ym maes gwasanaethau plant yn adlewyrchu'r amrywiaeth fawr honno o bobl ifanc y gallai rhywun gamfanteisio arnynt yng Nghasnewydd. Roedd hyn yn golygu heriau sylweddol i weithwyr proffesiynol wrth gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel. Fodd bynnag, yn gyffredinol gwelsom fod y broses o asesu risg ar gyfer Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar waith a bod y staff yn ei deall. Roedd y ACDAP yn arolygiad ar y cyd gan arolygiaeth o'r ymateb amlasiantaethol i achosion o gam-drin ac esgeulustod yng Nghasnewydd ym mis Rhagfyr 2019. Roedd yr arolygiad hwn yn cynnwys gwerthusiad o'r modd yr oedd gwasanaethau lleol yn ymateb i achosion o gamfanteisio ar blant.

Roedd y gweithwyr proffesiynol y gwnaethom siarad â nhw yn ymroddedig iawn, yn llawn cymhelliant ac yn dangos dealltwriaeth dda o natur y gwaith. Fodd bynnag, yn y ffeiliau a samplwyd, gwelsom oedi sylweddol o ran cynnal cyfarfodydd strategaeth camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae hyn yn golygu bod oedi o ran cynnal asesiad risg amlasiantaeth. Gwelsom nad oedd cyfarfodydd strategaeth plant coll yn cael eu cynnull yn unol â Chanllawiau Cymru Gyfan. Felly, ni allai'r bartneriaeth leol fod yn sicr bod asesiad o waith cynllunio risg a diogelwch yn gadarn ar gyfer plant coll. Daeth arolygwyr i'r casgliad bod yr ymateb i ymholiadau o dan adran 47 yn amrywiol; roedd rhai ymchwiliadau yn cael eu rheoli'n dda ac yn cael eu goruchwyllo'n briodol. Gwelwyd enghreifftiau da o gydweithio, a gwelwyd bod ystyriaethau ymchwiliol a diogelu yn cael eu nodi'n glir ac yr eir i'r afael â nhw.

Pobl

O ran gweithgareddau ffocws ar gyfer pobl hŷn, cawsom amrywiaeth o ymatebion mewn perthynas â chydabod a diwallu anghenion y gofalwyr yn llawn. Fodd bynnag, ar y cyfan, roedd y bobl y cawsom sgwrs â nhw yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a ddarperir. Roedd y bobl yn teimlo bod y staff yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn ymateb iddynt.

O ran gwasanaethau plant, er i ni nodi bod ymarfer gwaith cymdeithasol yn ymgysylltu â phlant yn gadarnhaol, ni welsom fod hyn wedi'i adlewyrchu yn ddigonol mewn dogfennaeth. Nid oedd tystiolaeth o sgysiau "Yr Hyn sy'n Bwysig" bob amser, felly roedd cynrychiolaeth wael o lais plant a theuluoedd. Nid oedd asesiadau yn gryno ac roedd diffyg dadansoddi. Gwelsom nifer o achosion lle roedd awgrym clir (drwy nifer o ail-atgyfeiriadau diweddar) bod angen gofal a chymorth ar blant a theuluoedd ond nid oedd eu sefyllfa yn datblygu yn briodol.

Nid oes llawer o alw am wasanaethau Cymraeg yng Nghyngor Dinas Casnewydd. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ac mae gan y Cyngor aelodau o staff gwasanaethau cymdeithasol sy'n gallu diwallu anghenion defnyddwyr y gwasanaeth. Mae gweithgarwch gwerthuso perfformiad AGC wedi cadarnhau bod y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg wedi'i ymgorffori yn y broses Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth mewn gwasanaethau plant ac oedolion.

Rydym yn parhau i fonitro'r gwaith o roi'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS) ar waith, sydd wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn debyg i lawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u

rhyddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law.

Bu cryn ffocws ar Aseswyr Budd Pennaf (BIA) yn yr awdurdod lleol wrth baratoi ar gyfer Trefniadau Diogelu Rhyddid (LPS). Rheolwyr gwasanaeth yw'r llofnodwyr ar hyn o bryd, a bydd y tîm rhanbarthol yn cydlynu'r Aseswyr Budd Pennaf a meddygon Adran 12. Mae'r awdurdod lleol wedi mynegi pryderon mewn perthynas â'r effaith ar y system newydd, yn enwedig ar gyfer darparwyr, o ystyried y disgwyliadau. Mae DoLS ar y gofrestr risg gorfforaethol o hyd o ganlyniad i'r galw a'r ôl-groniad.

Atal

Mae'r gwasanaeth Gartref yn Gyntaf wedi gwneud cynnydd da yn 2019-2020. Ym mis Chwefror 2020, roedd y gwasanaeth wedi dechrau helpu hyd at 40 o bobl yr wythnos i adael yr ysbyty heb gael eu derbyn.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi bod yn gweithio ar ddigonolrwydd lleoliadau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae pum cartref gofal plant cofrestredig yng Nghasnewydd a bwriedir cofrestru dau gartref arall. Mae'n bosibl bod y Cyngor wedi ymateb i'r prinder o ran lleoliadau i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth yn genedlaethol. Mae un cartref wedi cael dau hysbysiad diffyg cydymffurfio yn dilyn arolygiad yn gynharach eleni, ac mae un ohonynt yn ymwneud â diogelu. O ystyried cymhlethdod a chymysgedd y bobl ifanc a leolir yn y cartrefi, mae cadw nhw'n ddiogel yn her i'r staff. Mae gan AGC bryderon am allu'r staff i reoli materion risg uchel yn y cartrefi. Bydd angen i AGC gael sicrwydd pellach yn 2020-2021.

Mae cynnig atal cynhwysfawr yng Nghasnewydd, ar lefel cyfiawnder ieuencid a gwasanaethau plant. Roedd y ACDAP yn nodi cefnogaeth gref yn y maes hwn gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gwent. Mae asiantaethau partner (darparwyr statudol a darparwyr trydydd sector megis St.Giles, Barnardo's a Casnewydd Fyw) yn gweithio yn unol ag ethos a rennir o ddiogelu plant a phobl ifanc ar lefelau gwahanol o fod yn agored i niwed.

Yn ystod 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r [adroddiad](#) ar gael ar ein gwefan. Mae'r canfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal, ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad i blant sydd wedi cael profiad o ofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amllder adolygiadau diwedd lleoliad.

Dywedodd Cyngor Dinas Casnewydd fod cyfarfodydd lleoliadau wedi'u cynllunio yn cael eu cynnal cyn i blentyn symud. O ran symudiadau brys, cynhelir cyfarfod cynllunio cyn gynted â phosibl sy'n dwyn gwybodaeth allweddol ynghyd, er nad yw'n ddelfrydol, fel y dywedodd y

Cyngor. Mae'r panel Dyfodol Mwy Disglair yn ystyried pob un o'r plant lle ceir lleoliadau newydd neu heriau cynyddol. Mae hyn yn cynnwys ystyried cymorth a gwybodaeth ychwanegol i blant a/neu ofalwyr. Caiff pob achos o symud i ofal preswyl, Asiantaethau Maethu Annibynnol ac achosion o leoliadau'n methu eu trafod yn Dyfodol Mwy Disglair.

Partneriaethau

Nododd arolygwyr ACDAP fod yr heddlu a'r awdurdod lleol wedi cydweithio i gydleoli personél yn yr hwb diogelu. Mae hyn yn galluogi gwybodaeth i gael ei rhannu a'i gwella a gwneud penderfyniadau yn gynt. Gellid gwella'r trefniant hwn gyda rhyngwyneb gwell rhwng yr hwb a chynrychiolwyr iechyd ac addysg. Yn yr hwb diogelu gwelsom dystiolaeth bod trafodaethau strategaeth yn cael eu cynnal a bod ymholiadau o dan Adran 47 yn cael eu rhoi ar waith yn brydlon. Yn ystod yr arolygiad, cawsom gyfle i arsylwi ar gyfarfod hwb lle cafodd gwybodaeth yr asiantaethau ei rhannu ac atgyfeiriadau eu rheoli, a gwelsom fod hyn yn broses effeithiol. Gwnaeth yr arolygwyr hefyd arsylwi ar gyfarfod camfanteisio amlasiantaeth lle roedd cynrychiolaeth dda o weithwyr proffesiynol a thystiolaeth o gydweithredu amlasiantaethol o ran yr adnodd mesur newydd ar gamfanteisio. Er bod hyn yn cael ei brofi drwy gynllun peilot ar hyn o bryd, mae arwyddion cynnar yn dangos bod hyn yn rhoi cyfle i rannu gwybodaeth a chytuno ar lefel y risg gyda'i gilydd.

Yn ystod ein gwaith gweithgaredd â ffocws yn haf 2019, gwelsom fod problem ynghylch ansawdd y cyfathrebu rhwng tîm Torri'r Cylch a gwasanaethau plant – yn benodol am rannu gwybodaeth yn dilyn sgysiau ôl-drafod â phobl ifanc. Gwelsom hefyd fod ôl-groniad o asesiadau Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol (SERAF's) ac nad oeddent yn cael eu cwblhau yn brydlon gan y tîm hwnnw ar ôl cael atgyfeiriadau'r heddlu. Cadarnhawyd pryderon am y gwasanaeth hwn yn ystod y ACDAP, ac mae'r gwasanaeth rhanbarthol hwn bellach wedi dadgyfuno a'i rannu yn wasanaethau unigol awdurdodau lleol Gwent. Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cydnabod ei bod yn bwysig bod y newid hwn yn cael ei reoli'n fanwl, o ystyried bod hwn yn faes mor annatod o arferion amddiffyn plant.

O ran gwasanaethau pobl hŷn, gwelsom fod amrywiaeth dda o wasanaethau ar gael i fodloni canlyniadau unigol, a bod dulliau cyfathrebu amlddisgyblaethol da.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021

Roedd ein rhaglen arolygu thematig ar gyfer 2019-2020 yn canolbwyntio ar waith atal a hybu annibyniaeth i bobl hŷn. Ar gyfer yr arolygiad thematig presennol o wasanaethau plant, mae'r ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. O ganlyniad i'r argyfwng presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar wasanaethau pobl hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â'r adolygiad o gymorth i blant anabl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi maes o law pryd rydym yn rhagweld y byddwn yn ailgychwyn ein harolygiadau.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau pobl hŷn maes o law, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol at hyn.

O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yng Nghasnewydd yn ystod hydref 2019. Roedd hyn yn enghraifft wych o ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, gan gynnig ymgyrch wirioneddol i sicrhau cydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Cc.
Archwilio Cymru
AGIC
Estyn